## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Hydref 2014

Annwyl Archwilydd Cyffredinol

**Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Rhagor o wybodaeth**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Hydref ar gyfer y sesiwn dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn y cyfarfod, ac yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, mynegoch y farn bod yr asesiad o'ch rôl ym Memorandwm Esboniadol y Bil yn anghywir. Rydych wedi awgrymu y dylid ystyried diwygio'r Bil i osod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru, i gynnwys archwilio sut mae sefydliadau wedi ymgorffori datblygu cynaliadwy fel eu hegwyddor ganolog mewn perthynas â'u dyletswydd. Hoffai'r Pwyllgor i chi ddarparu rhagor o fanylion ar sut y gellid cyflawni hynny, gan gynnwys unrhyw welliannau penodol a fyddai angen eu gwneud ac effaith bosibl gwelliannau o'r fath.

Hefyd, yn y cyfarfod cytunoch i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

1. Barn eich cwnsler arweiniol o ran eich rhwymedigaeth statudol cyfredol mewn perthynas â'r Bil yn ei ffurf bresennol; ac
2. Enghraifft o ddyletswydd debyg, fel y cyfeiriwyd ati uchod, mewn deddfwriaeth bresennol.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu ymateb ar y materion uchod erbyn dydd Gwener 10 Hydref. Rwy'n gwerthfawrogi fod amser yn brin, ond mae'n ymwneud a'r amserlen ar gyfer Cyfnod 1 a'r angen inni gael eich ymateb mewn da bryd i allu ystyried y wybodaeth yn llawn.

Hefyd, yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, rydych yn datgan bod eich sylwadau yn seiliedig ar ddarllen y Memorandwm Esboniadol yn unig, yn hytrach nag archwiliad o'r holl bapurau gwaith sylfaenol. Yn ystod y cyfarfod, nodoch y byddech yn gallu cynnal archwiliad o'r fath, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac argaeledd y dogfennau angenrheidiol. Hoffai'r Pwyllgor ofyn yn ffurfiol ichi gynnal yr archwiliad hwnnw a darparu manylion ar eich casgliadau. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod imi erbyn pryd gellir gwneud y gwaith hwnnw.

Os ydych yn cytuno gyda'r cais, byddaf yn gofyn i Glerc y Pwyllgor gysylltu â'r swyddogion priodol yn eich swyddfa i drafod manylion y gwaith.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion a Chlercod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid fel eu bod yn ymwybodol o'm cais. Rwyf ar ddeall nad yw'r cais hwn yn torri ar draws unrhyw waith y mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi'i gynllunio ac nad oes gweithdrefn sy'n rhwystro pwyllgorau'r Cynulliad rhag gofyn am eich cymorth gyda'u gwaith.

Yn gywir

Alun Ffred Jones

**Alun Ffred Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn | Tel: 029 2089 8639
E-bost | Email: alun.davidson@cymru.gov.uk

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 6 Hydref 2014
Ein cyfeirnod: HVT/2215/mjb
Tudalen: 1 o 1

Annwyl Darren

**BIL LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)**

Byddwch wedi gweld y llythyr dyddiedig 3 Hydref 2014 a dderbyniais gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd (atodaf gopi er hwylustod).

Yn dilyn y dystiolaeth lafar a roddais i'r Pwyllgor hwnnw yn ei gyfarfod ar 1 Hydref i'w gynorthwyo i graffu ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (y Bil), mae wedi gofyn i mi wneud trefniadau i gynnal archwiliad o'r costau a amlinellir ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru i'r Bil, ac i adrodd ar fy nghanfyddiadau i'r Pwyllgor hwnnw.

Rwy'n bwriadu ymateb i gais y Pwyllgor drwy gynnal astudiaeth o dan adran 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i brofi cadernid cyffredinol y rhagdybiaethau/dadansoddiadau sy'n sail i'r asesiad effaith rheoleiddiol. Cyn gwneud hynny mae'n ofynnol i mi, wrth gwrs, o dan y ddarpariaeth honno ystyried barn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech drefnu i'ch Pwyllgor ystyried y mater cyn gynted ag y bo'n gyfleus, o gofio bod angen i'r gwaith hwn gael ei wneud cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 0510

E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk